Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

# Llawlyfr Coleg Doethurol 2025 - 2026



# Cynnwys

3. Croeso i'r Coleg Doethurol
4. Cyflwyniad i'r Colege Doethurol
5. Eich profiad Doethurol
5. Cymorth ac arweiniad
6. Cyflwyno Staff y Coleg Doethurol
8. Y broses ddoethurol a'r disgwyliadau
10. Newidiadau i'ch astudiaeth
12. Cyflwyno eich traethawd ymchwil
13. Atodiad





# Croeso i'r Coleg Doethurol

## Croeso

Annwyl Fyfyrwyr Doethurol

Mae'n bleser gennym eich croesawu i Goleg Doethurol y Drindod Dewi Sant.

Y Coleg Doethurol yw'r canolbwynt i'n myfyrwyr doethurol, sy'n caniatáu ichi gael gafael ar wybodaeth, adnoddau, digwyddiadau a rhwydweithiau ar draws y Brifysgol. Wrth i'r Coleg ddatblygu, bydd yn eich galluogi i gymryd eich lle fel rhan o'r gymuned fywiog hon o ysgolheigion.

Rydym yn gartref i gasgliad o raglenni a llwybrau doethurol gwahanol, ond sydd i gyd â'r un nod o ddatblygu ymchwilwyr ardderchog sy'n gallu gwneud cyfraniad arwyddocaol i wybodaeth yn eu dewis ddisgyblaeth neu arfer proffesiynol. Daw ein myfyrwyr atom ar bob cam o'u bywydau proffesiynol, o'u swyddi cyntaf i fod yn uwch arweinwyr o amrywiaeth o sectorau sydd wedi'u lleoli ledled y byd. Bydd rhai o'n myfyrwyr ond yn treulio cyfnod byr ar ein campysau cyn dychwelyd i'w cartrefi a'u gwaith, tra bydd cyfle gan eraill i ddilyn rhaglenni mwy preswyl. Pa lwybr bynnag a ddilynwch, rydym am sicrhau bod gennych fynediad i'r amgylchedd ymchwil a fydd yn meithrin eich datblygiad.

Gwn y gallaf siarad ar ran ein holl diwtoriaid a goruchwylwyr wrth ddweud ein bod ni'n edrych ymlaen yn fawr at weithio gyda chi a hwyluso'ch taith ymchwil.

**Dr Malcolm MacLean**
**Cyfarwyddwr Academaidd y Coleg Doethurol (dros dro)**

## Y llawlyfr hwn

Nod y llawlyfr hwn yw helpu i roi amcan i chi o strwythurau a phrosesau'r Brifysgol i'ch helpu i gynefino â'ch astudiaethau doethurol. Beth bynnag fo'ch lleoliad neu'ch dull astudio, mae'r canllaw hwn yn cynnig cyngor a gwybodaeth bellach i bob myfyriwr doethurol newydd a phresennol.

Yn ogystal â chyngor academaidd, mae'r llawlyfr hwn hefyd yn cynnwys gwybodaeth am wasanaethau a chyfleusterau'r Brifysgol. Byddem yn annog pawb i archwilio ac ymchwilio i'r hyn sydd ar gael i chi ar draws y Brifysgol i'ch helpu i wneud yn fawr o'ch astudiaethau.

Er bod y canllaw hwn wedi'i drefnu i roi gwybodaeth i bob myfyriwr, er mwyn cael arweiniad a chyngor penodol i'ch pwnc, bydd eich Athrofa'n gallu cynnig cymorth ychwanegol, ynghyd â'ch tîm goruchwylio.

Gobeithio y bydd y canllaw hwn o ddefnydd i chi, ond os oes angen unrhyw gymorth pellach arnoch, rhowch wybod i ni.
.

**Y Coleg Doethurol**
**doctoral.college@uwtsd.ac.uk**

# Cyflwyniad i'r Coleg Doethurol

Mae ymchwil ac ysgolheictod yn greiddiol i'r Drindod Dewi Sant, ac rydym yn falch o fod yn Brifysgol hanesyddol a arweinir gan ymchwil sy'n datblygu ymchwil o fri rhyng~~wladol~~. Rydym yn cynnig astudiaethau doethurol hyblyg i ddysgwyr preswyl a dysgwyr o bell dros gasgliad o lwybrau gradd ymchwil. Oherwydd y nifer cynyddol o fyfyrwyr doethurol sy'n dod i'r Drindod Dewi Sant i gwblhau eu hastudiaethau, a'u hamrywiaeth, cafodd y Coleg Doethurol ei sefydlu i oruchwylio'r holl faterion sy'n gysylltiedig â myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig.

Lluniwyd y Coleg Doethurol i oruchwylio gweithgareddau a hyfforddiant yr holl fyfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig (YOR), gan wneud y Coleg Doethurol yn 'siop un stop' i'n myfyrwyr YOR. Ein nod yw datblygu'r ddarpariaeth hyfforddi, cymuned a gweledd YOR, a chyfleoedd i'n myfyrwyr. Wrth symud ymlaen, bydd y Coleg Doethurol yn gweithredu nifer o fentrau a syniadau newydd i wella'r amgylchedd ymchwil ar draws y Drindod Dewi Sant a'r cyfleoedd i bob un o'n myfyrwyr YOR.

Rydyn ni yma i wneud eich profiad doethurol yn haws ac yn bleserus, ac i'ch cefnogi ar hyd y ffordd, felly cysylltwch â ni gydag unrhyw feddyliau neu syniadau a allai fod gennych.





# Eich Profiad Doethurol

Mae'r Coleg Doethurol yma i gefnogi eich taith ymchwil mewn sawl ffordd. Cynigwn gyrsiau hyfforddi a gweithdai drwy gydol y flwyddyn sy'n agored i'n holl fyfyrwyr. Rydym hefyd yn cynnal cynhadledd myfyrwyr flynyddol ac ysgol haf sy'n gyfle hyfryd i gwrdd â phobl eraill a sôn am eich ymchwil. Cynhelir ein holl ddigwyddiadau'n hybrid, felly p'un a ydych wedi'ch lleoli ar y campws, o bell neu'n rhyngwladol, gallwch ymuno â ni o hyd. Mae gan y Coleg Doethurol sesiynau galw heibio rheolaidd i fyfyrwyr hefyd, ac mae'n cefnogi myfyrwyr trwy gynllun grant i fynychu cynadleddau a digwyddiadau academaidd.

Mae'r Coleg Doethurol hefyd yn cynnal tudalennau gwe pwrpasol a luniwyd i roi'r newyddion diweddaraf i'n holl fyfyrwyr YOR a staff goruchwylio am wybodaeth, trafodaethau a digwyddiadau. Rydym hefyd wedi symleiddio'r prosesau gweinyddol yn ddiweddar trwy gyflwyno porth MyTSD, sy'n caniatáu lanlwytho pob ffurflen a dogfen bwysig yn uniongyrchol ar-lein i'r Coleg Doethurol.

Yn ogystal â chefnogi myfyrwyr YOR, mae'r Coleg Doethurol hefyd yn gweithio i sicrhau bod pawb yn cael y profiad gorau posibl. Mae hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn gwaith strategaeth a chynllunio'r Brifysgol, yn ogystal â chefnogi a chynnal hyfforddiant i staff goruchwylio.

Ar ben y Coleg Doethurol, cyniga'r Brifysgol lu o gyfleoedd ychwanegol. Fe'ch anogwn i gymryd rhan ac i wneud yn fawr o'ch amser yn y Drindod Dewi Sant.

# Cymorth ac arweiniad

### *Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu*

Nod y Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu yw cefnogi holl fyfyrwyr, staff ac ymchwilwyr y Brifysgol drwy ddarparu mynediad at adnoddau dysgu a gwasanaethau gwybodaeth o ansawdd uchel. Yn gynwysedig yn y cymorth ceir staff penodedig ar gyfer ymchwilwyr ôl-raddedig a fydd yn gallu cynnig cymorth arbenigol i chi. Mae'r Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu hefyd yn cynnig Rhaglen Sgiliau Gwybodaeth i helpu i wella eich gwybodaeth a'ch llythrennedd digidol, sy'n cynnwys popeth y mae angen i chi ei wybod am hawlfraint, cyfeirnodi, a sut i gael gafael ar eich rhestrau adnoddau ar-lein. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar dudalennau gwe'r Coleg Doethurol yn yr adran adnoddau neu ar dudalennau gwe Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu'r Drindod Dewi Sant.

### *Swyddfa Ryngwladol*

Mae'r Swyddfa Ryngwladol yn cynnig arweiniad a chymorth i fyfyrwyr rhyngwladol sy'n astudio yn y Drindod Dewi Sant. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth ynghylch fisâu a rheoliadau cyflogaeth cyfredol. Ceir rhagor o fanylion ar adran ganllaw tudalennau gwe'r Coleg Doethurol ac ar dudalennau gwe'r Swyddfa Ryngwladol.

### *Lles Myfyrwyr*

Mae'r holl wasanaethau Lles Myfyrwyr ar gael i fyfyrwyr doethurol yn y Drindod Dewi Sant. Maent yn cynnig amrywiaeth o gymorth, gan gynnwys cyngor lles a gwasanaethau cwnsela. I gael rhagor o wybodaeth am sut i gysylltu â Lles Myfyrwyr, edrychwch ar dudalennau gwe'r Coleg Doethurol neu ar dudalennau gwe Lles Myfyrwyr.

***Mae'r Coleg Doethurol yn ehangu'n gorwelion ymchwil drwy wahanol fathau ar ddarlithoedd ar-lein ac all-lein, ac mae'r gynhadledd i fyfyrwyr yn cynnig llwyfan delfrydol i ni ymwneud â chyfathrebu a deialog academaidd.***
**Chuandai, Myfyrwyr Doethuriaeth Broffesiynol**

# Cyflwyno Staff y Coleg Doethurol

## *Dr Malcolm MacLean*

*Rheolwr y Gronfa Goruchwylwyr Allanol*

Yn ogystal â chefnogi gweithrediadau cyffredinol y Coleg Doethurol, rwy'n tynnu ar bron i 20 mlynedd o fod yn oruchwyliwr ac arholwr graddau ymchwil, ac yn hyfforddwr ymchwilwyr a goruchwylwyr i helpu i hyfforddi a datblygu goruchwylwyr graddau ymchwil. Mae hyn yn rhan o waith y Coleg i sicrhau fod y Drindod Dewi Sant yn darparu amgylcheddau academaidd ac ymchwil o safon uchel i fyfyrwyr. Rwy'n gweithio'n bennaf gyda staff (er y byddwch yn fy ngweld mewn amryw ddigwyddiadau) yn tynnu ar fy ngwaith ar ddatblygu ymchwilwyr yn y DU a mannau eraill i helpu i roi'r profiad gorau posibl i chi.

## *Professor Kyle Erickson*

*Cyfarwyddwr y Profiadau Academaidd*

Rwy'n helpu i gefnogi'r Coleg Doethurol a sicrhau bod myfyrwyr yn cael y profiad gorau posibl wrth astudio yn y Drindod Dewi Sant. Rwyf hefyd yn gadeirydd y Pwyllgor Graddau Ymchwil ac mae gennyf gyfrifoldeb am oruchwylio penderfyniadau'n ymwneud ag ymchwil ôl-raddedig.

## *Dr Nina Sharp*

*Datblygwr Ymchwilwyr*

Rwy'n gweithio yn y Coleg Doethurol i gefnogi ei weithrediadau cyffredinol, gan ganolbwyntio ar sicrhau bod yr amgylchedd ymchwil yn galluogi pob un o fyfyrwyr y Drindod Dewi Sant i gael mynediad at hyfforddiant, arweiniad, rhwydweithio a digwyddiadau i gefnogi a chyfoethogi eu hastudiaethau. Rwy'n deall bod astudiaethau doethurol yn gallu bod yn heriol, ac rwy'n gobeithio y gallwn gydweithio er mwyn gwella'r hyn sydd gan y Drindod Dewi Sant i'w gynnig i chi, i'ch cyd-fyfyrwyr ac i'r rhai sydd i ddod.

## *Steven Davies*

*Uwch Swyddog Ansawdd Academaidd*

Rwy'n gweithio yn y Coleg Doethurol, ac rwyf yma i wneud eich taith fel myfyriwr mor llyfn â phosibl. Ynghyd â'ch goruchwylwyr, rydw i yma i'ch cynghori ar brosesau rheoleiddiol ac i'ch cefnogi wrth gwblhau'r ffurflenni perthnasol ac i'ch helpu i gyrraedd pob un o'ch cerrig milltir. Gallaf eich helpu i lywio'ch ffordd drwy'r Cod Ymarfer a phorth y Coleg Doethurol ac rwy'n gweithredu fel eich pwynt cyswllt canolog. Rydym yn edrych ymlaen at eich croesawu chi, a'ch cefnogi ar hyd eich taith fel myfyriwr ymchwil ôl-raddedig yn y Brifysgol.

## *Julia Davies*

*Uwch Swyddog y Gofrestrfa (Myfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig)*

Rwy'n gweithio yn y Coleg Doethurol fel aelod o dîm y Gofrestrfa. Yn aml, fi yw'r pwynt cyswllt cyntaf ar eich taith ymchwil pan fyddwch yn dangos diddordeb am y tro cyntaf mewn dilyn rhaglen ymchwil, ac rwyf yma i'ch arwain drwy'r broses dderbyn, i gynorthwyo â'r broses ailgofrestru flynyddol a swyddogaethau eraill y Gofrestrfa hyd nes i chi raddio.

## *Megan Hughes*

*Swyddog y Gofrestrfa / Swyddog Gweinyddol*

Rwy'n gweithio'n llawn amser yn y Coleg Doethurol mewn dwy swydd ran-amser. Fy nod yw darparu cefnogaeth weinyddol ragorol i chi drwy gydol eich taith YOR. Rwy'n dwli ar yr eiliadau 'a-ha' serendipaidd hynny y mae myfyrwyr yn eu profi wrth ddysgu, ac rwy'n gobeithio y bydd fy nghymorth yn y cefndir yn helpu i'ch galluogi i ddatblygu mewnwelediadau a darganfyddiadau yn y meysydd astudio rydych chi'n dwli arnynt. Croeso i'r Coleg Doethurol!

> ***Llwyfan Cymunedol y Coleg Doethurol yw fy lle 'i fynd iddo' pan fydd angen cymhelliant arnaf… Oherwydd tîm y Coleg Doethurol, datrysais bob un o'm cwestiynau unigol mewn chwinciad.***
> **Nicole, Myfyrwraig PhD**



# Y broses ddoethurol a'r disgwyliadau

Mae'r Coleg Doethurol yma i gefnogi pob ymgeisydd a myfyriwr drwy gydol camau derbyn, cynefino ac ymchwil eich gradd. Mae'r canlynol yn rhoi arweiniad a chyngor cyffredinol, ac mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y Cod Ymarfer ar gyfer Graddau Ymchwil neu drwy gysylltu â'r Coleg Doethurol i gael rhagor o wybodaeth.

## Ymgeisio a Chofrestru

**Cam 1: Cofrestru neu symud ymlaen i radd ymchwil**

Yn fyfyriwr ymchwil newydd, eich cam cyntaf yw cwblhau'r broses gofrestru. Ar ôl derbyn eich cynnig i astudio drwy MyTSD, byddwch yn derbyn e-bost gyda gwybodaeth am sut i gofrestru tua phythefnos cyn i'ch astudiaethau ddechrau. Wrth gofrestru, byddwch yn gyfrifol am dalu unrhyw ffioedd.

Yn achos y rhai sy'n symud ymlaen o raglen lle maent wedi cwblhau'r Rhan 1 a addysgir, byddwch yn symud ymlaen yn awtomatig i Ran 2. Yn rhan o'r broses ddilyniant, mae angen ichi ailgofrestru ar Ran 2 eich astudiaethau.

Yn achos myfyrwyr Rhan 2, mae angen llenwi a chymeradwyo'r ffurflen enwebu ar gyfer eich tîm goruchwylio (PG3) er mwyn sicrhau bod y staff cywir yn cael eu dyrannu i gefnogi eich prosiect ymchwil.

Rhaid i chi gofrestru bob blwyddyn. Mae cofrestru'n digwydd bob blwyddyn ar ben-blwydd dyddiad dechrau eich cwrs. Pan fydd y Brifysgol yn cysylltu â chi i ailgofrestru ar gyfer eich astudiaethau, gwnewch hynny, oherwydd gall methu â dilyn y broses hon arwain atoch yn cael eich tynnu'n ôl o'ch rhaglen astudio.

**Cam 2: Cynefino**

Yn rhan o'r broses o gychwyn arni, bydd disgwyl i chi fynd i ddigwyddiad cynefino gan eich Athrofa a gan y Coleg Doethurol. Cynhelir y rhain naill ai yn y cnawd neu ar-lein.

Nod y sesiynau cynefino yw rhoi gwybodaeth bwysig ichi am eich Athrofa yn ogystal â'ch cyflwyno i'r prosesau doethurol. Gallan nhw fod yn gyfle da i ddysgu mwy am y disgwyliadau ar gyfer myfyrwyr doethurol yn ogystal â chwrdd â staff a chyd-fyfyrwyr.

## Disgwyliadau

Yn fyfyriwr doethurol yn y Drindod Dewi Sant, byddwch yn gyfrifol am fodloni disgwyliadau canlynol y Brifysgol:

- Cofrestru gyda'r Brifysgol yn flynyddol ar ben-blwydd dyddiad dechrau eich cwrs. Bydd angen i chi ailgofrestru wrth symud o Ran 1 i Ran 2 eich astudiaethau hefyd;
- Talu'r holl ffioedd gofynnol i'r Brifysgol;
- Bod mewn cysylltiad rheolaidd â'ch tîm goruchwylio (rhagor isod);
- Sicrhau bod fersiwn derfynol eich traethawd ymchwil yn cael ei gyflwyno erbyn y dyddiad cyflwyno hwyraf;
- Dilyn y gofynion ar gyfer cyflwyno traethawd ymchwil;
- Gwneud eich tîm goruchwylio yn ymwybodol o unrhyw anghenion neu amgylchiadau penodol a allai effeithio ar eich gwaith;
- Ymgyfarwyddo â rheoliadau a chanllawiau, prosesau a gweithdrefnau'r Brifysgol ar gyfer astudio doethurol;
- Cwblhau'r holl ffurflenni a phrosesau angenrheidiol a ddefnyddir gan y Brifysgol i fonitro cynnydd;
- Cymryd perchenogaeth o'ch cynllun ymchwil a'ch anghenion hyfforddi;
- Mynychu unrhyw sesiynau hyfforddi gorfodol/ darlithoedd/ seminarau/gweithdai sy'n rhan o'ch rhaglen ymchwil.

Drwy gydol eich astudiaeth ddoethurol, bydd eich tîm goruchwylio, yr Athrofa a'r Coleg Doethurol wrth law i'ch cefnogi a chynnig cyngor ychwanegol pan fo angen.



## Cerrig Milltir

Hefyd, bydd gofyn i chi gwblhau cerrig milltir penodol yn ystod eich astudiaethau. I roi canllaw i chi, mae'r cerrig milltir hyn yn cynnwys:

| Carreg filltir | Rhagddodiad y ffurflen | Teitl y ffurflen | Pryd i'w chwblhau |
|---|---|---|---|
| Cynnig Ymchwil Llawn | PG1 | Cynnig Ymchwil Llawn | Amser Llawn – 3 mis ar ôl cofrestru<br>Rhan-amser – 6 mis ar ôl cofrestru |
| Cymeradwyaeth foesegol | PG2/E1 | Ffurflen foeseg | Amser Llawn - 6 mis ar ôl cofrestru<br>Rhan-amser - 12 mis ar ôl ar ôl cofrestru |
| Adolygiad Cynnydd Blynyddol | PG5 | Adolygiad Cynnydd Blynyddol | Ar gais bob blwyddyn (neu'n gynharach os bernir bod angen) |
| Cyfnod Prawf ar gyfer PhD* | PG7B(2) | Cyflwyniad Myfyriwr ar gyfer Cyfnod Prawf | Amser Llawn – heb fod yn hwyrach na 12 mis ar ôl y cofrestru cychwynnol<br>Rhan-amser – heb fod yn hwyrach na 24 mis ar ôl y cofrestru cychwynnol |

*Os ydych wedi'ch cofrestru ar radd PhD

I weld manylion llawn y prosesau a'r rheoliadau'n ymwneud â graddau ymchwil, edrychwch ar y Cod Ymarfer ar gyfer Graddau Ymchwil a'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd. Mae dolenni at y rhain isod yn yr atodiad ac ar dudalennau gwe'r Coleg Doethurol.

## Cynnig Ymchwil Llawn

Bydd gofyn i chi gwblhau cynnig ymchwil llawn (PG1) a'i gyflwyno i Borth MyTSD i'ch tîm goruchwylio, Pwyllgor Ymchwil yr Athrofa a'r Pwyllgor Graddau Ymchwil ei gymeradwyo. Dylai'r cynnig hwn gynnwys cynnig ymchwil sydd wedi'i ddatblygu'n llawn, gan gynnwys methodoleg ac amserlenni i'w gwblhau. Mae hwn yn gam pwysig o ran eich helpu i sicrhau bod gennych gynllun digonol ar gyfer dilyniant drwy eich astudiaeth.

Gall y cynnig ymchwil fod yn amodol ar unrhyw newidiadau neu awgrymiadau a wnaed gan y Pwyllgor Graddau Ymchwil. Os oes gennych unrhyw bryderon am y broses hon a'r hyn y mae'n ei olygu i chi'n benodol, siaradwch â'ch tîm goruchwylio.

## ymeradwyaeth Foesegol

Yn rhan o'ch astudiaethau doethurol, bydd gofyn i chi gael cymeradwyaeth foesegol ar gyfer eich ymchwil. Pan fydd eich cynnig ymchwil llawn wedi'i gymeradwyo, y cam nesaf yw cael cymeradwyaeth foesegol.

Bydd angen cyflwyno eich ffurflen foeseg (PG2) drwy Borth MyTSD cyn pen tri mis ar ôl i'ch cynnig ymchwil (PG1) gael ei gymeradwyo. Er nad yw'n broses hir, dylech ganiatáu digon o amser i'ch moeseg gael ei chymeradwyo a dylech gynnwys hynny yn eich cynllun gwaith. Mae eich tîm goruchwylio ar gael i helpu i'ch arwain drwy'r broses hon ac mae adnoddau'n ymwneud â moeseg ar gael ar dudalennau gwe'r Coleg Doethurol yn yr adran ganllaw ac ar dudalennau gwe'r Brifysgol.

## Monitro Cynnydd

Dylech gwrdd â'ch tîm goruchwylio'n ffurfiol o leiaf ddeg gwaith y flwyddyn, yn ogystal â chwrdd â'ch goruchwylwyr yn rheolaidd. Ar ôl pob cyfarfod dylech lenwi'r ffurflen PG4 gyda'ch goruchwyliwr a'i lanlwytho i Borth MyTSD i gofnodi eich cynnydd. Dylech gysylltu'n uniongyrchol â'ch goruchwylwyr i drefnu'r cyfarfodydd hyn a'u hystyried yn rhan o'ch cynllun gwaith.

Yn ogystal, bydd angen i chi gwblhau adolygiad blynyddol (PG5) bob blwyddyn a gaiff ei fonitro gan y Pwyllgor Graddau Ymchwil. Cyflwynir y ffurflen hon drwy Borth MyTSD. Y broses hon yw cyfle'r Brifysgol i wirio cynnydd mewn perthynas â'ch astudiaethau. I gael rhagor o fanylion, yn cynnwys canlyniadau'r adolygiad cynnydd, cyfeiriwch at ddogfennau'r Cod Ymarfer ar gyfer Graddau Ymchwil.

Bydd hefyd angen i ymgeiswyr PhD basio cyfnod prawf ar ôl eu blwyddyn astudio gyntaf (dwy flynedd ar gyfer myfyrwyr rhan-amser). Dylid cyflwyno'r ffurflen PG7 hon drwy Borth MyTSD ac mae arweiniad pellach ar hyn ar gael yn y Cod Ymarfer ac wrth drafod â'ch tîm goruchwylio

# Newidiadau i'ch astudiaeth

Deallwn nad yw pethau bob amser yn digwydd yn unol â'r cynllun, ac efallai y bydd angen i chi wneud newidiadau i'ch dull astudio. Er mwyn darparu ar gyfer hyn, mae gennym nifer o fesurau ar waith i'ch helpu gydag amgylchiadau sy'n newid. Os byddwch yn teimlo bod angen i chi wneud newidiadau i'ch astudiaeth, awgrymwn eich bod yn siarad â'ch tîm goruchwylio yn y lle cyntaf, oherwydd gallan nhw eich cefnogi drwy'r broses o wneud newidiadau.

Sylwch fod angen cymeradwyaeth swyddogol ar newidiadau i astudiaethau. Gellir gwneud newidiadau hefyd yn ystod y cyfnodau cywiro ac ailgyflwyno. Os oes angen rhagor o gymorth arnoch yn ystod neu cyn ymgymryd â'r broses o newid eich astudiaethau, edrychwch ar y Cod Ymarfer ar gyfer Graddau Ymchwil a chysylltwch â'r Coleg Doethurol i gael rhagor o wybodaeth.

## *1. Estyniadau i'r Terfyn Amser Hwyaf*

Un o'r ffyrdd y gall y Brifysgol gefnogi newidiadau mewn amgylchiadau yw cynnig estyniad i'r cyfnod astudio. Fel arfer, caniateir y rhain ar y seiliau canlynol:

- Iechyd neu feddygol;
- Tosturiol;
- Ymrwymiadau proffesiynol eithriadol.

Er mwyn gwneud cais am estyniad, rhaid llenwi ffurflen 'Cais am Estyniad i Ymgeisyddiaeth' a'i chyflwyno ynghyd â thystiolaeth ategol. Rhaid cynnwys datganiad gan eich Cyfarwyddwr Astudiaethau a'r Athrofa gyda'r ffurflen hefyd.

Wedyn, bydd y Coleg Doethurol fel arfer yn gwneud penderfyniad ar sail y dystiolaeth ac yn rhoi gwybod i chi am y canlyniadau. Mewn rhai amgylchiadau penodol, caiff y cais ei drosglwyddo i'r Pwyllgor Graddau Ymchwil i gael penderfyniad.

## *2. Tarfu ar Astudiaethau*

Efallai y bydd modd caniatáu cyfnod o absenoldeb, neu darfu ar astudiaethau, er mwyn darparu ar gyfer eich amgylchiadau. Os hoffech wneud cais i darfu ar astudiaethau, dylech gael gair yn gyntaf â'ch Cyfarwyddwr Astudiaethau. Dylai myfyrwyr rhyngwladol hefyd ymgynghori â'r Gofrestrfa Ryngwladol.

Caniateir tarfu ar astudiaethau ar y seiliau canlynol:

- Iechyd neu Feddygol;
- Absenoldeb mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu;
- Tosturiol (gan gynnwys profedigaeth ac anawsterau domestig difrifol);
- Ariannol;
- Ymrwymiadau Proffesiynol Eithriadol;
- Cyfleoedd sy'n cyfrannu at ddatblygiad academaidd;
- Amgylchiadau eithriadol y tu hwnt i'ch rheolaeth sy'n peryglu'n ddifrifol eich gallu i barhau â'ch astudiaethau.

Rhaid gwneud cais a chyflwyno'r ffurflen gais i'r Coleg Doethurol, ynghyd â thystiolaeth ategol a datganiad gan y Cyfarwyddwr Astudiaethau neu sefydliad partner cydweithredol.

Fel arfer, caiff ceisiadau eu hystyried gan y Coleg Doethurol, ond mewn rhai amgylchiadau gellir eu cyfeirio at y Pwyllgor Graddau Ymchwil. Bydd y Coleg Doethurol yn rhoi gwybod i chi am y penderfyniad.



## *3. Newidiadau i'r Dull Astudio*

Gellir gwneud newidiadau i'ch dull astudio pan fyddwch yn dal i fod o fewn eich cyfnod astudio lleiaf. Gellir newid o ran-amser i amser llawn neu fel arall. Fel arfer, dim ond ar ben-blwydd eich cofrestriad, ac yn achos myfyrwyr rhan-amser, ar flynyddoedd eilrif, y caniateir newidiadau i astudiaethau.

Er mwyn newid eich dull astudio, dylid trafod y mater yn gyntaf gyda'ch Cyfarwyddwr Astudiaethau neu staff perthnasol. Rhaid i unrhyw un sy'n noddi'ch astudiaethau hefyd gytuno ar y newidiadau hyn. Ar ôl i chi drafod y rhain, gallwch wneud cais i'r Coleg Doethurol a gaiff ei ystyried gan y Pwyllgor Graddau Ymchwil.

## *4. Trosglwyddo Dyfarniad*

Er mwyn trosglwyddo dyfarniad o/i lefel uwch neu is, rhaid gwneud hynny o fewn y cyfnod astudio lleiaf er mwyn iddo gael ei ystyried. Rhaid cwblhau'r ffurflen gais i drosglwyddo gradd ynghyd â chynnig ymchwil wedi'i ddiweddaru a wneir gyda chefnogaeth eich tîm goruchwylio.

Gellir anfon ceisiadau i'r Coleg Doethurol a bydd y Pwyllgor Graddau Ymchwil yn eu hystyried.



## *5. Gohirio Astudiaethau*

O dan rai amgylchiadau eithriadol, efallai y bydd gofyn i fyfyrwyr ohirio eu hastudiaethau oherwydd rhesymau academaidd, disgyblu neu ariannol. Ystyrir hyn yn ohiriad i astudiaethau. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd myfyriwr yn cael gwybod yn uniongyrchol am hyn ac yn cael y rhesymau dros y gohirio. Gellir gohirio hefyd os yw'r Brifysgol yn cytuno nad yw parhau ag astudiaethau er budd iechyd y myfyriwr. Os bydd gohiriad, mae gan y myfyriwr hawl i ofyn am adolygiad o'r penderfyniad.

## *6. Tynnu'n Ôl yn Wirfoddol*

Os penderfynwch dynnu'n ôl o'ch astudiaethau yn y Drindod Dewi Sant, dylech drafod hyn yn gyntaf gyda'ch Cyfarwyddwr Astudiaethau fel y gellir ystyried unrhyw gamau gweithredu amgen posibl. Os byddwch yn penderfynu tynnu'n ôl, bydd angen i chi gwblhau hysbysiad ffurfiol drwy'r ffurflen Hysbysu am Dynnu'n Ôl a'i chyflwyno i'r Coleg Doethurol..

## *Angen cymorth?*

Mae'r Coleg Doethurol yma i'ch cefnogi ar bob cam o'r ffordd, felly os oes angen unrhyw gymorth pellach arnoch gydag unrhyw un o'r materion uchod, cysylltwch â'r Coleg Doethurol. Mae'r holl ffurflenni angenrheidiol ar gael ar Borth MyTSD.



# Cyflwyno eich traethawd ymchwil

Mae nifer o gamau'n gysylltiedig â chyflwyno'ch traethawd ymchwil terfynol. Mae arweiniad llawn ar gael yn y Cod Ymarfer ac ar Lwyfan Cymunedol y Coleg Doethurol hefyd.


Pan fydd gennych ddyddiad cyflwyno cadarn ar gyfer eich traethawd ymchwil, rhaid cyflwyno ffurflen Bwriad i Gyflwyno (PG8) a chrynodeb i'r Coleg Doethurol drwy Borth MyTSD o leiaf 3 mis cyn y dyddiad disgwyliedig. Pan fydd y ffurflen hon wedi dod i law, bydd y paratoadau'n dechrau ar gyfer trefnu'ch arholiad.

O ran cynllun a strwythur cyffredinol, mae manylion ar gael yn y Cod Ymarfer ar gyfer Graddau Ymchwil a dylech hefyd drafod hyn gyda'ch tîm goruchwylio.

Dylech gyflwyno eich traethawd ymchwil rhwng cwblhau'r cyfnod astudio lleiaf a chyn y dyddiad cyflwyno hwyaf. Dylech gyflwyno eich traethawd ymchwil ar ffurf copi electronig yn unig i'r Coleg Doethurol drwy Borth MyTSD. Mae'n bwysig nodi na ellir diwygio'r traethawd ymchwil ar ôl ei gyflwyno. Pan fydd wedi dod i law, caiff ei lanlwytho i Turnitin a'i drosglwyddo i'r arholwyr.

Mewn rhai achosion, gallwch gyflwyno eich traethawd ymchwil yn gynnar, cyn diwedd y cyfnod astudio lleiaf. Os byddwch yn cyflwyno'n gynnar, dylech fod yn ymwybodol y byddwch yn dal yn gymwys i dalu'ch ffioedd sy'n weddill tan ddiwedd y cyfnod astudio lleiaf. Os ydych yn ystyried cyflwyno'n gynnar, dylech drafod hyn gyda'ch tîm goruchwylio yn gyntaf.

***Mae'n wych i gael strwythur… mae'n tawelu'r meddwl i wybod bod system fonitro yn ei lle i wirio ein bod ar y trywydd iawn yn nhermau gofynion ffurfiol.***
**Ruth, Myfyrwraig PhD**



# Atodiad

## *Dyddiadau Defnyddiol*

Rhestrir rhai dyddiadau defnyddiol isod. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma: Calendr | Y Drindod Dewi Sant

### *Dyddiadau Tymor 2025/ 2026*

Tymor yr Hydref 2025
Dechrau'r tymor – 22 Medi 2025
Diwedd y Tymor – 12 Rhagfyr 2025
Tymor y Gwanwyn 2026
Dechrau'r tymor – 5 Ionawr 2026
Diwedd y tymor – 27 Mawrth 2026
Tymor yr Haf 2026
Dechrau'r tymor – 20 Ebrill 2026
Diwedd y tymor - 5 Mehefin2026

### *Gwyliau Cyhoeddus a Diwrnodau Cau'r Brifysgol*

Dydd Nadolig – 25 Rhagfyr 2025
Gŵyl San Steffan – 26 Rhagfyr 2025
Diwrnod Cau – 29 Rhagfyr 2025
Diwrnod Cau - 30 Rhagfyr 2025
Diwrnod Cau – 31 Rhagfyr 2025
Dydd Calan – 1 Ionawr 2026
Dydd Gwener y Groglith – 3 Ebrill 2026
Llun y Pasg – 6 Ebrill 2026
Gŵyl Banc Mai – 4 Mai 2026
Gŵyl Banc y Gwanwyn – 25 Mai 2026
Gŵyl Banc Awst – 31 Awst 2026



## *Dolenni Defnyddiol*

Isod ceir casgliad o ddolenni i wasanaethau ac adnoddau amrywiol y Brifysgol a all fod o ddefnydd i chi. Mae'r rhain hefyd wedi'u rhestru ar Lwyfan y Coleg Doethurol.

### *Tudalennau Gwe'r Coleg Doethurol*

Dolen yma

### *Porth MyTSD*

Log in to the portal

### *Hwb Myfyrwyr*

Students » Hub

### *Y Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu*

Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu | University of Wales Trinity Saint David (uwtsd.ac.uk)

### *Undeb y Myfyrwyr*

Undeb Myfyrwyr Y Drindod Dewi Sant (uwtsdunion.co.uk)

### *Gwasanaeth Gyrfaoedd*

Gwasanaeth Gyrfaoedd | University of Wales Trinity Saint David (uwtsd.ac.uk)

### *Lles Myfyrwyr*

Gwasanaethau Myfyrwyr | UWTSD
Cymorth Sgiliau Astudio | UWTSD

### *Myfyrwyr Rhyngwladol*

International Students | University of Wales Trinity Saint David

### *Swyddfa Llety*

Llety Myfyrwyr | University of Wales Trinity Saint David (uwtsd.ac.uk)

### *Ffioedd Myfyrwyr a Chyllid*

Ffioedd Myfyrwyr a Chyllid | University of Wales Trinity Saint David (uwtsd.ac.uk)

## *Cyfleusterau'r Campysau*

Mae gan y Drindod Dewi Sant dri phrif gampws yng Nghymru, sef Caerfyrddin, Llambed ac Abertawe, yn ogystal â champysau yn Birmingham a Llundain a chanolfannau dysgu yng Nghaerdydd. I ddysgu rhagor am y cyfleusterau ar bob campws, canolfan neu leoliad, dilynwch y ddolen ganlynol Campysau, Canolfannau a Lleoliadau | Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (pcydds.ac.uk)